*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1163

# Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

## RHAN 1

## RHAGARWEINIOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "blwyddyn" ("*year*" ) yw blwyddyn ariannol daladwy ;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "gallu cynhyrchu net a ddatgenir" ("*declared net capacity*"), mewn perthynas â pheiriannau cynhyrchu yw'r cynhyrchiad uchaf o drydan (wrth y terfynellau cynhyrchu) y gellir ei gynnal am gyfnod amhenodol, o dan yr amodau perthnasol, heb achosi niwed i'r peiriannau, gan dynnu o'r gallu cynhyrchu hwnnw yr hyn a ddefnyddir gan y peiriannau, ac a fynegir mewn megawatiau hyd at y ganfed ran agosaf o fegawat;

(At ddibenion y diffiniad hwn ar gyfer y peiriannau cynhyrchu hynny a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw drwy losgi olew neu lo, yr amodau perthnasol yw bod y dŵ r sy'n mynd i'r system oeri yn un deg naw gradd Celsius os caiff y dŵ r oeri ei gylchredeg ar yr hereditament i'w ailddefnyddio yn y system oeri, neu ym mhob achos arall deg gradd Celsius.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw gwynt, mae cyflymder y gwynt yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw dŵ r, mae llif y dŵ r yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer pob math arall ar beiriannau cynhyrchu yr amodau perthnasol yw, bod tymheredd yr awyr yn lleoliad yr hereditament yn ddeg gradd Celsius ac mae gwasgedd yr aer yn 1013mbar); ac

ystyr "peiriannau cynhyrchu" ("*generating plant*"), mewn perthynas â hereditament, yw peiriannau yn yr hereditament neu arno a ddefnyddir neu sydd ar gael ar gyfer eu defnyddio i'r diben o gynhyrchu trydan.

### Talgrynnu Rhifau

**3.** Pan (ar wahân i'r erthygl hon) fydd unrhyw werth ardrethol y penderfynir arno o dan y Gorchymyn hwn yn cynnwys ffracsiwn o bunt—

(a) rhaid talgrynnu'r ffracsiwn i un bunt os bydd yn fwy na 50c, a

(b) rhaid anwybyddu'r ffracsiwn os bydd yn 50c neu'n llai.

### Diddymiadau ac Eithriadau

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn y canlynol gydag effaith o 1 Ebrill 2000 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru:

(a) Gorchymyn Cynhyrchwyr Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**1**);

(b) Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Diwygio) 1995(**2**);

(c) erthygl 2 o Orchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan ac Ymgymerwyr Dŵ r (Gwerthoedd Ardrethol) (Diwygio) 1996(**3**) a'r gyfran honno o erthygl 1 sy'n cael effaith i ddibenion erthygl 2.

(2) Bydd y Gorchmynion a grybwyllir ym mharagraff 1 yn parhau i gael effaith ar 1 Ebrill 1995 neu wedyn at ddibenion y canlynol neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r canlynol—

(a) unrhyw newid i restr a luniwyd cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan reoliadau a wnaed o dan adran 58 o'r Ddeddf(**4**) (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ac ymlaen) ynglŷn â'r swm taladwy o ran hereditament am gyfnod perthnasol fel y'i diffinnir yn yr adran honno.

(**1**) O.S. 1994/3282 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/962 ac O.S. 1996/912. Mae'r Gorchymyn hwn yn parhau effaith Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1989 (O.S. 1989/2474) a Gorchymyn Cynhyrchwyr Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1989 (O.S. 1989/2475) mewn perthynas â rhestri ardrethu annomestig mewn grym cyn 1 Ebrill 1995.

(**2**) O.S. 1995/962.

(**3**) O.S. 1996/912 fel y'i ddiwygiwyd.

(**4**) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 (p.14), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3) ac adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).